# SL(5)662 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer rheolau ar gosbau mewn perthynas â thorri Rheoliad (UE) 2016/2031 ynghylch mesurau diogelu rhag plâu planhigion, a Rheoliad (EU) 2017/625 ynghylch rheolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir y gyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion i ddiogelu planhigion. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud hynny trwy wneud darpariaeth ar gyfer sancsiynau sifil.

Bydd y sancsiynau sifil yn eistedd ochr yn ochr â sancsiynau troseddol presennol. Mae'r sancsiynau sifil yn cynnwys hysbysiadau cydymffurfio, hysbysiadau adfer a hysbysiadau stop, cosbau ariannol amrywiadwy a chosbau ariannol penodedig, yn ogystal â'r gallu i dderbyn ymgymeriadau trydydd parti ac ymgymeriadau gorfodi.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ymddengys fod y cosbau sifil a delir o dan y Rheoliadau hyn yn cael eu talu i Gronfa Gyfunol y DU, nid i Gronfa Gyfunol Cymru.

Byddem yn croesawu cadarnhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch a yw hynny'n wir ac, os ydyw, pam nad yw'r taliadau'n cael eu gwneud i Gronfa Gyfunol Cymru.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Nid oes angen gweithredu prif ddarpariaethau Rheoliadau'r UE uchod yn y Deyrnas Unedig oherwydd eu bod yn cael effaith uniongyrchol yn awtomatig yn y Deyrnas Unedig tan ddiwedd y cyfnod pontio ar 31 Rhagfyr 2020. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i ddeddfwriaeth ddomestig (h.y. y Rheoliadau hyn) ategu Rheoliadau'r UE. Er enghraifft, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gorfodi Rheoliadau'r UE.

Ar ddiwedd y cyfnod pontio ar 31 Rhagfyr 2020, bydd y Rheoliadau hyn a Rheoliadau'r UE yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ac, felly, byddant yn parhau i fod yn gymwys i Gymru.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 7 Rhagfyr 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod a nodwyd a hefyd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.